

Cylchlythyr Pont Tyn-y-bryn

Rhifyn 2



Croeso i ail gylchlythyr ein prosiect.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi penodi cwmni Balfour Beatty'n brif gontractwr i gyflawni gwaith ar bont droed Tyn-y-bryn ac o'i hamgylch. Cafodd y gwaith yma ei gaffael drwy Fframwaith Beirianeg Sifil SCAPE.

Ers i'r gwaith ddechrau ar y safle ym mis Mehefin 2023, mae llawer o gynnydd eisoes wedi'i wneud tuag at adlinio sianel yr afon, atgyweirio'r arglawdd, a pharatoi ar gyfer dyfodiad y bont droed newydd sbon.

Dros y mis diwethaf, mae'r sylfaen (neu'r ategwaith) y bydd y bont newydd yn eistedd arno wedi'i osod. Mae'r sylfaen wedi'i sefydlu gan ddefnyddio dull arloesol lle mae deunydd o'r enw geopolymer yn cael ei chwistrellu'n uniongyrchol i'r ddaear ac yna mae concrit wedi'i atgyfnerthu â dur yn cael ei osod ar ei ben. Mae'r sylfeini bellach yn eu lle i baratoi ar gyfer y bont newydd a fydd yn cael ei chodi i'w lle dros yr wythnosau nesaf.

Mae cerrig bloc dwy dunnell fetrig wedi'u gosod gan ddarparu cryfder a gwydnwch ychwanegol y mae mawr ei angen i lannau'r afon. Yn ogystal, mae'r pyst plât sy'n dal y ddaear yn ôl bellach wedi'u gosod.

Rydym wedi osod 19 cored bach. Rhwystr bach yw cored wedi'i adeiladu ar draws yr afon - fel argae bach. Maen nhw'n helpu i reoli llif y dŵr trwy alluogi dŵr yr afon i Gronni y tu ôl iddyn nhw ac yna'n llifo'n raddol dros y brig.

Cau ffordd yn nodi carreg filltir bwysig yn y prosiect

Os bydd y tywydd yn caniatáu, Ddydd Gwener 17 Tachwedd bydd darn byr o'r A4119 ar gau dros nos (rhwng 8pm a 6am). Bydd hyn o gylchfan Stryd Melin, i fyny heibio i i'r gylchfan i'r dde o Trebannog. Bydd arwyddion clir yn nodi llwybr y gwyrriad.

Mae cau'r ffordd yn garreg filltir fawr yn y cynllun gan y bydd yn rhoi'r modd i graen 120 tunnell osod y bont droed 11 metr newydd yn ei lle. Bydd hysbysfyrdau yn cael eu gosod ymlaen llaw ar ochr y ffordd i atgoffa trigolion lleol y bydd y ffordd ar gau.

Dywedodd Ryan Anderson, Rheolwr Prosiect i Balfour Beatty: "Bydd hwn yn ddiwrnod cyffrous i'r prosiect gyda'r bont droed newydd yn cael ei chodi i'w lle.

"Serch hynny, rydyn ni'n deall bod modd i gau'r ffordd dros dro achosi peth aflonyddwch. Rydyn ni'n annog trigolion i gynllunio ymlaen llaw a gadael amser ychwanegol ar gyfer eich teithiau dros nos ar 17 Tachwedd.

"Rydyn ni hefyd yn deall bod modd i'r rhai sy'n byw'n agos at y safle brofi peth aflonyddwch oherwydd sŵn a golau ar noson gosod y bont. Hoffwn dawelu eich meddyliau y byddwn ni'n gweithio cyn gynted ag y gallwn ac y byddwn ni'n tarfu cyn lleied â phosibl."

Wyddoch chi...

Mae amrywiaeth o rywogaethau o bysgod yn Afon Elái, gan gynnwys brithyllod a phenllwydion. Mae 19 cored fechan wedi cael eu gosod yn yr afon hefyd yn helpu drwy ddarparu mannau i bysgod gael seibiant wrth iddyn nhw fudo i fyny'r afon.



Ffair yrfaeodd – eich dyfodol mewn peirianeg sifil

Ym mis Medi, aethon ni i Ffair Yrfaeodd Cyngor Rhondda Cynon Taf a'i Bartneriaid 2023 ym Mhontypridd.



Croesawodd yr achlysur dros 50 o sefydliadau a oedd yn barod i benodi gweithwyr. Roedd y rhain yn dangos y cyfleoedd gyrfa oedd ar gael i'r cannoedd o bobl leol a oedd yn bresennol.

Cawson ni ddiwrnod gwych yn siarad â phobl am yr ystod eang o yrfaeodd sydd ar gael yn y diwydiant adeiladu. Roedden ni'n mwynhau'r sgysiau hynod ddiddorol ac ysbrydoledig, gyda llawer o bobl yn sganio ein cod QR i ddarganfod rhagor am ddyfodol mewn peirianeg sifil, ein swyddi gwag presennol a'n cynlluniau prentisiaeth.

A wyddech chi... Rydyn ni wedi ymrwymo i ddefnyddio llafur lleol ar ein safleoedd cymaint â phosibl. Ers dechrau'r prosiect ym mis Mehefin 2023, mae 55% o'r bobl sy'n gweithio ar safle Tyn-y-Bryn yn byw o fewn 40 milltir.

Ymunwch â ni! Chwiliwch am ein swyddi gwag a gwneud cais drwy: www.balfourbeatty.com neu sganiwch y cod QR yma.



Mynnwch y cylchlythyr yma'n uniongyrchol!

Rydyn ni'n gobeithio bod y cylchlythyr yma'n ddefnyddiol i chi. Os hoffech chi gael y newyddion diweddaraf am y prosiect, mae modd ichi gofrestru ar gyfer rhestr bostio ein cylchlythyr. Anfonwch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost i: tinybrynbridge@balfourbeatty.com neu sganiwch y cod QR yma ar eich ffôn i lenwi'r ffurflen ar-lein.



Geobear yn cymryd y llwyth

Mae Geobear - cwmni peirianeg tir rhyngwladol arloesol - wedi gosod y sylfaen y bydd y bont droed newydd yn eistedd arno pan fydd yn cael ei chodi i'w lle ar ddechrau mis Tachwedd.

Mae'r sylfaen (neu'r ategwaith) wedi'i osod gan ddefnyddio dull arloesol Geobear lle mae tîm o beirianwyr daear a pheirianwyr strwythurol arbenigol yn creu tyllau bach yn y ddaear, lle mae resin geopolymer sy'n ehangu yn cael ei chwistrellu. Unwaith y mae o dan y ddaear, mae'r resin yn ehangu i lenwi'r holl fylchau a chywasgu'r pridd.

Mae'r dull yma wedi cynyddu cynhwysedd pwysau'r sylfeini yn sylweddol, ac mae hyn wedi caniatáu i ddyluniad y sylfaen gael ei leihau. Mae hefyd wedi cynnig dewis arall yn lle defnyddio concrit traddodiadol sydd ag ôl troed carbon llawer mwy.

Yn ogystal, mae modd cyflawni'r broses osod gyfan mewn ychydig oriau yn unig yn hytrach na dulliau mwy traddodiadol sy'n cymryd llawer mwy o amser a chost.



Mae'r cylchlythyr yma ar gael mewn sawl diwyg ar gais.
E-bostiwch tinybrynbridge@balfourbeatty.com am ragor o wybodaeth.